

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 3ydd Hydref 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, P. Prendergast, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, T. Thomas, R. J. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

#### **49. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr B. Blakeley, Ms J. Hughes a K. R. Jones.

#### **50. CYNGOR SIR DDINBYCH – SWYDDOG PROSIECT CYDYMFFURFEDD CYNLLUNIO DROS DRO**

Ymhellach i gofnod rhif 59 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2018, croesawodd y Caderydd Mr Paul Mead, Rheolwr Datblygu a Mr Wayne Williams, Swyddog Prosiect Cydynffurfedd Cynllunio Dros Dro, i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch yr aelodau.

Cyflwynodd Mr Mead Mr Williams, a fyddai'n bresenoldeb gweledol yng nghanol y dref, gyda chyfrifoldeb am ddelio gyda chwynion ynglŷn â hen adeiladau ac adeiladau gwag, honiadau a gweithredoedd o drosedd a phroblemau parth cyhoeddus.

Mewn digwyddiad ymgynghori yn ddiweddar yn y Rhyl, y neges gyffredinol oedd teimlad o flerwch yng nghanol y dref, y byddai'r swydd newydd hefyd yn delio ag o.

Byddai Mr Williams yn ceisio chysylltu â chymaint o landlordiaid ag y bo modd, rhai presennol ac absennol, gyda'r nod o feithrin perthynas gyda nhw i gynnig atebion a fyddai'n briodol i'r ddwy ochr lle mae problemau'n bodoli.

Byddai ffocws wedi ei adnewyddu ar landlordiaid absennol.

Byddai gorfodi'n digwydd trwy hysbysiadau rhybuddio i ddechrau, gan symud at y pwerau i gyflwyno hysbysiad ac yn y pen draw, erlyn oherwydd diffyg cydyffurfedd.

Mewn rhai achosion efallai y bydd angen i Gyngor Sir Ddinbych wneud y gwaith gofynnol a bilio'r landlord.

Roedd ymgyrch hysbysebu yn cael ei threfnu i ledaenu'r neges trwy'r dref, gyda chyfathrebu rheolaidd wedyn yn adrodd ar lwyddiannau a'r camau a gymerwyd ar y ffordd.

Roedd y swydd wedi'i hariannu am ddwy flynedd, gyda'r gobaith o'i hymestyn wedi hynny.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Mr Mead a Mr Williams:

- Bod gan Mr Williams dros naw mlynedd o brofiad o 'orfodi,' yn gweithio i Heddlu Gogledd Cymru ac yn adran Dai Cyngor Sir Ddinbych, yn bennaf gyda landlordiaid absennol.
- Byddai'r swydd yn cynnwys yr ardal gadwraeth gyfan, gyda phroblemau sy'n codi y tu allan i'r ardal yn cael eu trin gan Mr Adam Turner, Swyddog Cydymffurfedd Cynllunio ar gyfer Sir Ddinbych gyfan.
- Byddai Mr Williams yn rhagweithiol iawn ac ni fyddai'n aros i'r cwynion ddod ato.
- Roedd ganddynt y pwerau i ddelio gyda'r problemau hyn ond byddai angen delio â disgwyliadau. Nid oedd ateb cyflym i broblemau a oedd wedi hen sefydlu, ond byddai nifer o lwyddiannau cyflym i helpu i ddylanwadu ar syniadau'r cyhoedd.
- Byddai Mr Williams mewn cysylltiad rheolaidd â holl adrannau perthnasol Cyngor Sir Ddinbych.
- Roedd angen i adeiladau ym meddiant Cyngor Sir Ddinbych bennu'r safonau, felly byddai'n arwain trwy gadw eu hadeiladau eu hunain yn lân a thaclus.
- Cytunwyd bod gan cynghorwyr y dref rôl gefnogol i'w chwarae o ran adrodd am broblemau a sicrhau eu bod yn cael eu trin.

Ar ran yr aelodau, diolchodd y Cadeirydd i Mr Mead a Mr Williams am eu presenoldeb, croesawu'r swydd newydd a dymuno'n dda iddynt.

## 51. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MEDI 2018**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
475	Cyngor Sir Ddinbych	707.00	TANC ar gyfer Ffordd Wellington – taliad 6 o 10
476	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Swyddog Apeliadau Rhan-amser – taliad 6 o 12
572	BT	123.48	Rhentu llinell rhyngwyd
573	HSBC	23.06	Taliadau banc 17 Gorffennaf i 16 Awst 2018
576	Cyngor Sir y Fflint	4,289.52	Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Awst 2018

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
577	HMRC	2,736.67	Didyniadau Cyflog Awst 2018
578	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,889.09	Cyflogau Staff Medi 2018
579	Gunsmoke Communications	1,280.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Awst 2018
580	Sioned Graham- Cameron	236.91	Ffioedd Cyfieithu Awst 2018
581	BT	151.68	Taliadau rhent
	<b>Cyfanswm taliadau</b>	<b>£17,354.07</b>	

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad.

**52. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
589	Arian Mân	Ychwanegu at yr arian mân	150.00
590	BA Commercial	Prisio Canolfan Gymunedol Tynewydd	720.00
591	Bernie Williams M/F Miles of Smiles	Peintio wynebâu yn y Rhyl Wylt 22 Medi 2018	150.00
592	Mrs V Reed M/F Fun Faces	Peintio wynebâu yn y Rhyl Wylt 22 Medi 2018	105.00
593	Gwasg Helygain	Tafleni a phosteri ar gyfer digwyddiad y Rhyl Wylt	270.60
<b>Cyfanswm Atodlen B</b>			<b>£1,395.60</b>

*a chymeradwywyd yr ychwanegiadau canlynol i'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy:*

- BA Commercial (Prisio CG Tynewydd)
- V Reed M/F Fun Faces (Peintio wynebâu yn y 'Rhyl Wylt')

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.

**53. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MÂN – 1AF EBRILL – 30AIN MEDI 2018**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gyda'r atodlen o daliadau isod ynghlwm fel Atodiad A, i'r aelodau ei gymeradwyo.

Disgrifiad o Nwyddau a Gwasanaethau	Swm
Sellotape	£0.79

Lluniaeth	£13.89
Cafetiery Bodum ar gyfer Lluniaeth	£9.99
Postio gyda Llofnod Dosbarth 1af	£1.77
Lluniaeth ar gyfer Digwyddiad Sefydlu'r Maer	£46.61
Range – Ffrâm a bachau	£4.48
Aldi – Hidlwr Dwr Britta ac Ychwanegion	£18.98
Llefrith	£1.09
Postio – gyda Llofnod Pecyn Archwilio BDO	£8.60
Amlen	£0.70
Cardiau Cydymdeimlad x 2	£4.86
Llefrith	£1.09
Ffrâm ffotograff	£7.00
Hidlwr Britta	£32.00
Lluniaeth ar gyfer cyfarfodydd	£8.74
Cyfanswm:	£160.59

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlen.

#### 54. **AROLWG O AELODAU PWYLLGOR**

Ymhellach i gofnod rhif 7 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2018, ar ôl ethol dau gynghorydd newydd yn ddiweddar, rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Cynghorwyr Miss S. L. Roberts a R. J. Turner gyflwyno eu hunain ar gyfer unrhyw un o bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor (dosbarthwyd atodlen aelodau pwyllgorau gfyda'r rhaglen).

Yn ystod y drafodaeth, holodd y Cyngorydd A R James pam nad oedd, fel cyn Faer, yn aelod awtomatig o'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol?

Esboniodd y Clerc, er bod aelodaeth yn cynnwys cyn Feiri yn unig, mater i gynghorwyr unigol oedd mynegi dymuniad i ddod yn aelod o'r is-bwyllgor, fel rheol yng Nghyfarfod Anffurfiol y Cyngor neu Gyfarfod Blynyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD** ychwanegu'r Cynghorydd Roberts i'r Is-bwyllgor Asesu Risg ac ychwanegu holl gyn Feiri i'r Is-bwyllgor Digwyddiadau Dinesig a Chymdeithasol.

#### 55. **CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – AELOD WRTH GEFN AR Y BWRDD PARTNERIETH TELEDU CYLCH CYFYNG**

Ymhellach i gofnod rhif 14 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2018, ac ar gais cynrychiolydd presennol y Cyngor, y Cynghorydd B. Mellor, gofynnodd Clerc y Dref am gynrychiolydd amgen i fynychu cyfarfod nesaf y bwrdd partneriaeth gan nad oedd y Cynghorydd Mellor yn medru mynychu.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd P Prendegast i fynychu cyfarfod mis Tachwedd.

**56. YMGYNGHORIAD: COMISIWN DEMOCRATIAETH LEOL A FFINIAU CYMRU – AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y darn ar Dde-ddwyrain y Rhyl (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan ddweud bod sylwadau'r Cyngor Tref wedi eu cytuno, a'r canlyniad oedd y byddai ward bresennol de-ddwyrain y Rhyl yn cael ei rhannu yn Rhyl Trellewelyn a Rhyl Tŷ Newydd, a chael cynghorydd sirol Sir Ddinbych ychwanegol.

Diolchodd y Cynghorydd Mrs J Butterfield i Glerc y Dref am y gwaith paratoi roedd wedi ei wneud ar gyfer y cynghorwyr tref a fynychodd y digwyddiad ymgynghori, gan ganiatáu iddynt nhw chwarae rôl lawn yn y drafodaeth a chyflwyno eu hachos yn gryf.

At hyn, awgrymodd Clerc y Dref bod hwn yn amser da i ddelio â'r sefyllfa ddryslyd bresennol lle mae nifer o eiddo yn ward Trellewelyn wedi eu gwahanu oddi wrth yr holl eiddo arall yn yr un ward. Yn ddelfrydol, dylid trosglwyddo'r eiddo i ward Derwen. Byddai hyn yn gofyn i Gyngor Sir Ddinbych ymgymryd ag arolwg o ffiniau wardiau cynghorau tref. Byddai'n gwneud synnwyr i'r Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau newid ffin y ward sirol ar yr un pryd, fel bod trigolion yn mynd i'r un orsaf bleidleisio ar gyfer etholiadau tref a sir.

Hysbysodd Clerc y Dref bod Cyngor Sir Ddinbych yn cefnogi'r trosglwyddiad ond dim ond y Comisiwn Ffiniau allai newid ffiniau sirol. Roedd trosglwyddiad tebyg wedi digwydd ym Mhrestatyn yn ddiweddar.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) *Derbyn y trefniadau arolygu.*
- (ii) *Bod Clerc y Dref yn cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych a'r Comisiwn Ffiniau i ofyn am y newidiadau arfaethedig yn y wardiau trefol a sirol.*

**57. EITEM GAN AELOD: CYFEILLION DEMENTIA**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs D L King am gefnogaeth yr aelodau i'r Cyngor Tref ddod yn sefydliad sy'n 'deall dementia' i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyflwr ymhlith cynghorwyr tref.

Dywedodd y Cynghorydd King bod Cyfeillion y Gerddi Botanegol wedi gwirfoddoli i sefydlu grŵp llywio i ddatblygu ac ehangu'r cynllun o'r gymuned i fyny, fel oedd yn ofyniad gan Gymdeithas Alzheimer.

**PENDERFYNWYD** bod y pwyllgor yn derbyn y cynnig.

**58. EITEM GAN AELOD: CARDIAU CLYFAR YSGOLION**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych i'w gwneud yn ymwybodol bod plant ysgol yn mynd heb brydau bwyd oherwydd nad oedd credyd digonol ar eu cardiau clyfar.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

**59. EITEM GAN AELOD**

Gofynnodd y Cynghorydd Mrs J Butterfield am gefnogaeth yr aelodau i anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych i'w gwneud yn ymwybodol bod nifer arwyddocaol o blant ysgol yn mynd heb ginio yn ystod gwyliau haf yr ysgol, gan na fedrent dderbyn y pryd bwyd am ddim sydd ar gael iddynt yn yr ysgol.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny a holi os oes modd gwneud unrhyw beth i ddatrys y broblem.

**60. EITEM WYBODAETH GAN AELOD: CYNLLUN GWARCHOD Y GLANNAU DWYRAIN Y RHYL**

Dosbarthodd Clerc y Dref wybodaeth am gyfres o ddigwyddiadau agored yn ystyried cynigion i reoli peryglon llifogydd arfordirol i gymuned Dwyrain y Rhyl.

Cynhelir y digwyddiadau ar 11eg Hydref 10am hyd at 8pm ac 8fed Tachwedd 10am hyd at 8pm yn Ystafell Elwy yng Ngorsaf Dàn Gymunedol y Rhyl ar Ffordd yr Arfordir.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr wybodaeth.

**61. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**62. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG**

Hysbysodd cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bartneriaeth Teledu Cylch Cyfyng, y Cynghorydd M Mellor, bod gwaith yn parhau ar adnabod manau lle mae trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol waethaf yn y Rhyl a bod nifer o restiadau wedi eu gwneud diolch i'r delweddau.

Ychwanegodd y Cynghorydd Mellor bod y camerâu newydd yn gweithio'n dda a bod digon o arian yn y gronfa i ail-fuddsoddi yn y cynllun yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cynghorydd P Prendegast, (y cynrychiolydd a enwebwyd gan y Cyngor i fynychu cyfarfod y Bartneriaeth ym mis Tachwedd) yn gofyn beth oedd i'w drefnu ar gyfer y camera sy'n pwyntio'n syth i lawr ar y Stryd Fawr a holi pryd y byddai'r ap Airwaves, i gyflymu'r broses adrodd, yn cael ei gyflwyno.

**63. POSIBILRWYDD O GYLLID GRANT**

Adroddodd Clerc y Dref yn gyfrinachol er gwybodaeth i'r aelodau bod sefydliad elusennol mawr yn y cyfnod cynnar o'r broses i adnabod elusennau/mudiadau yn y Rhyl i'w cefnogi. Byddai'n rhoi mwy o wybodaeth os a phan fyddai ar gael.

**PENDERFYNWYD** *derbyn yr wybodaeth.*

#### **64. AILWAMPIO LLOCHESI BWS CYNGOR TREF Y RHYL**

Ymhellach i gofnod rhif 12 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn argymhell bod y Cyngor Tref yn derbyn cynnig Cyngor Sir Ddinbych i ailwampio'r 12 lloches ar Ffordd yr Arfordir y Rhyl ym meddiant y Cyngor Tref am 50% o'r gost, ac wrth wneud hynny yn derbyn trosglwyddiad perchnogeth 6 lloches arall ganddynt.

Y gost o ailwampio fyddai oddeutu £7,000.

Ar ôl cwblhau'r gwaith ailwampio, bydd 22 o'r 28 lloches wedi eu gwella.

Dyweddodd Clerc y Dref ei fod mewn trafodaethau gyda Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn ag ymestyn y cynnig i'r chwe lloches a oedd ar ôl a gofynnodd am awdurdod i gynnwys y llochesi hyn yn y rhaglen ailwampio os oedd hyn yn dderbyniol i'r Cyngor Sir.

Roedd yr adroddiad yn nodi ymhellach sut gellid ariannu'r gwaith ailwampio gan y Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD**

- (a) Derbyn y cynnig a chymeradwyo £7,000 ar gyfer y gwaith i'r 12 lloches gyda chyllid ychwanegol yn cael ei ryddhau ar gyfer y llochesi eraill yn amodol ar y Cyngor Sir yn cytuno cyllid cyfatebol.*
- (b) Bod y Cyngor Tref yn derbyn cyfrifoldeb am drosglwyddo'r llochesi a adnabuwyd gan y Cyngor Sir ar ôl eu hailwampio*
- (c) Bod cost y gwaith yn dod o drosglwyddiadau o gyllidebau wedi eu tanwario fel y nodwyd yn yr adroddiad gydag unrhyw ddiffyg yn dod o'r gronfa wrth gefn.*

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** *bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

#### **65. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad: .....